Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

Gweithgynhyrchu ac Economi Canolbarth Cymru

Mai 2005

Aelodau'r Pwyllgor

Chris Gwyther (Cadeirydd)	**Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro**
Leighton Andrews	**Rhondda**
Alun Cairns	**Gorllewin De Cymru**
Andrew Davies (Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth)	**Gorllewin Abertawe**
Janet Davies	**Gorllewin De Cymru**
Tamsin Dunwoody-Kneafsey	**Preseli Sir Benfro**
Lisa Francis	**Canolbarth a Gorllewin Cymru**
Elin Jones	**Ceredigion**
Jenny Randerson	**Canol Caerdydd**
Carl Sargeant	**Alun a Glannau Dyfrdwy**

Gweithgynhyrchu ac Economi Canolbarth Cymru

Cyflwyniad

Yn ystod y misoedd diwethaf mae'r Pwyllgor wedi clywed nifer o bryderon ynghylch effaith gynyddol y diswyddiadau a gyhoeddwyd yng Nghanolbarth Cymru dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn benodol, roedd nifer oohonynt yn effeithio ar y Drenewydd a'r ardal gyfagos ac roedd llawer yn y sector gweithgynhyrchu. Penderfynodd y Pwyllgor y byddai'n hoffi archwilio'r tueddiadau yn economi Canolbarth Cymru yn fanylach a threfnodd i gynnal cyfarfod yn y Drenewydd i drafod y materion penodol hyn â chynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus a phreifat yn yr ardal honno.

Estynnodd y Pwyllgor wahoddiad i gynrychiolwyr o'r WDA, ELWa a Chyngor Sir Powys, sef y prif asiantaethau sy'n cynnig cymorth i fusnesau. Yn ogystal â hyn, estynnwyd gwahoddiad i gynrychiolwyr o gwmnïau gweithgynhyrchu lleol i drafod y problemau mwy penodol sy'n wynebu cwmnïau sy'n gweithredu yng Nghanolbarth Cymru. Mae rhestr o'r rheini a ddaeth i'r cyfarfod yn Atodiad A.

Cefndir

Ardal wledig yw Canolbarth Cymru yn bennaf, yn enwedig o gymharu â rhai o ranbarthau eraill Cymru. Mae'r rhan helaethaf o'r rhanbarth yn anghysbell ac mae'r economi'n dibynnu'n gymharol drwm ar amaethyddiaeth a thwristiaeth. Mae'r nodweddion penodol hyn yn effeithio nid yn unig ar berfformiad cymharol economi, marchnadoedd a chystadleuaeth y rhanbarth, ond hefyd ar anghenion yr ardal o ran sgiliau.

Tueddu i ogwyddo tuag at yr oedrannus y mae cydbwysedd oedran poblogaeth y rhanbarth, ac mae'r boblogaeth wedi newid yn sylweddol wrth i bobl ifanc symud o'r ardal a theuluoedd hŷn a phobl sydd wedi ymddeol symud i mewn. Mae cyfran sylweddol o'r boblogaeth yn gweithio mewn diwydiannau sy'n seiliedig ar y tir a chan hynny mae newidiadau mewn dulliau amaethyddol yn effeithio mwy nag arfer ar yr economi. Cymharol brin yw mewnfuddsoddiad yn y rhanbarth ac mae'r rhan helaethaf o swyddi yn y sector preifat mewn mentrau micro, bach a chanolig cynhennid. Mae gan Ganolbarth Cymru sector gweithgynhyrchu fechan sy'n seiliedig ar rwydwaith da. Er na fyddai penderfyniad i gau unrhyw un o'r cwmnïau cymharol fach hyn yn cael fawr o sylw yn y wasg, gall colli dim ond nifer gymharol fechan o swyddi gael cryn effaith ar gymunedau bychain gwledig lle mae'r cyfleoedd i gael hyd i swyddi newydd yn brin.

Materion a godwyd yn y cyfarfod

Cyflogaeth lawn a chyflogau

Er bod rhannau o'r rhanbarth wedi dioddef oherwydd diweithdra yn y gorffennol, clywodd y Pwyllgor fod y rhanbarth wedi cyrraedd sefyllfa o gyflogaeth lawn yn ddiweddar. Mae Canolbarth Cymru, fodd bynnag, yn ardal ddaearyddol fawr a

chanddi wahanol is-economïau ac roedd rhai pocedi bach o ddiweithdra o hyd mewn rhai trefi ar hyd a lled y rhanbarth. Clywyd bod cyflogau cymharol isel a rhenti isel yn dal yn nodweddiadol o economi'r Canolbarth ond er bod rhai cwmnïau'n cael eu denu gan renti isel roedd Grŵp Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru (MWMG) yn dadlau bod cwmnïau yn yr ardal yn talu cyflogau teg am swyddi cymharol. Roedd cyflog gweithiwr yn y diwydiant cynhyrchu mewn ffatri yn y Drenewydd yn debyg iawn i gyflog gweithiwr tebyg yn Birmingham, Manceinion neu Leeds. Roedd y canfyddiad bod cyflogau'n isel yn gysylltiedig â'r ffaith mai ychydig o brif swyddfeydd oedd yn y rhanbarth ac o ganlyniad, roedd llai o swyddi â chyflogau uchel i weithredwyr nag mewn rhannau eraill o'r wlad ac roedd hynny, yn ei dro, wedi effeithio ar gyflog cyfartalog.

Demograffeg

Roedd tystiolaeth glir fod pobl ifanc yn ardal yn tueddu i symud o'r ardal naill ai i gael addysg uwch neu swyddi gwell ac mae pobl hŷn yn mewnfudo. Mae hyn yn creu poblogaeth sy'n heneiddio ac mae llai o bobl ar gael i weithio. Mae prinder tai fforddiadwy yn effeithio mwy ar bobl ifanc yr ardal na neb arall ac roedd angen gwell cydbwysedd rhwng cyflogau a chyfleoedd, o ran prynu tai. Bydd newidiadau demograffig yn ystod y 10 mlynedd nesaf yn arwain at ostyngiad yn nifer y disgyblion yn yr ysgolion a bydd hynny'n golygu y bydd angen gwneud penderfyniadau anodd o ran newid patrymau ysgolion, chweched dosbarth ac ati.

Seilwaith Ffisegol

Un o'r prif bryderon a gododd cynrychiolwyr o'r sector gweithgynhyrchu oedd y seilwaith trafnidiaeth. Roedd hyn yn effeithio ar y gallu i gludo nwyddau i mewn ac allan o'r ardal a hefyd ar symudiadau gweithwyr. Er bod cyflogaeth lawn yn Nyffryn Hafren roedd pocedi o ddiweithdra mewn trefi gweddol agos, ond nid oedd y seilwaith trafnidiaeth yn caniatáu i bobl deithio ymhell i gael gwaith. Roedd disgwyl cynyddol i nwyddau a archebwyd gael eu danfon ymhen 24 awr ac nid oedd cludwyr yn fodlon gwarantu hynny yng nghyswllt nwyddau yr oedd yn rhaid eu cludo o'r Canolbarth. Er nad oedd gweithgynhyrchwyr oi blaid adeiladu priffyrdd anferth drwy Gymru, roedd angen cael hyd i ffyrdd o gludo nwyddau'n gynt, yn enwedig o'r Gogledd i'r De ac o'r Dwyrain i'r Gorllewin.

Ychydig oedd wedi manteisio ar Fand Eang yn y Canolbarth a gallai hyn awgrymu nad oedd busnesau yn yr ardal wedi moderneiddio i'r un graddau â busnesau mewn ardaloedd eraill. Nid oedd modd i bawb yn yr ardal fanteisio ar ADSL eto wrth gwrs, felly nid oedd modd ei farchnata'n eang hyd yn hyn. Nodwyd hefyd fod ADSL yn awr yn cael ei gyflwyno'n raddol mewn rhannau eraill o Gymru, a allai olygu bod y Canolbarth yn llusgo y tu ôl i ardaloedd fel De-ddwyrain Cymru. Er bod yr Aelodau'n sylweddoli bod manteision ynghlwm wrth ehangu cysylltedd Band Eang, roedd yr Aelodau'n pryderu nad oedd yr asiantaethau yn y sector cyhoeddus, i bob golwg, wedi gwneud rhyw lawer i ddadansoddi'r galw nac wedi deall y mathau o gymwysiadau a gwasanaethau y gellid eu darparu ehangu cysylltedd Band Eang.

Y Farchnad Eiddo

Clywodd y Pwyllgor y byddai targed gwaredu asedau blynyddol y WDA yn creu problemau penodol yn y Canolbarth. Cyn gynted ag yr oedd eiddo'n cael ei drosglwyddo i berchnogion preifat, roedd yn tueddu i ddirywio gan nad oedd landlordiaid preifat mor debygol, fel rheol, i gynnal a chadw'r eiddo i'r un safon â'r sector cyhoeddus. Tueddai landlordiaid yn y sector preifat i godi rhenti uwch, er nad oedd yr Aelodau'n gallu gweld diben i landlord yn y sector preifat brynu eiddo, codi'r rhent ac yna methu ei rentu na gwneud elw ar y buddsoddiad. Dywedodd y WDA mai buddsoddwyr preifat bychain oedd y rhain yn aml, yn mentro yn y farchnad am y tro cyntaf, ac roedd y fenter yn methu'n aml. Roedd prinder eiddo yn cyfyngu ar allu'r WDA i ymateb yn gyflym i fuddsoddwyr brodorol a buddsoddwyr a oedd am symud i'r ardal yn ogystal â'i gwneud yn anodd cynnig 'cynnyrch' i gael buddsoddwyr i ystyried yr ardal yn y lle cyntaf. Aeth y Pwyllgor ati i drafod rôl y WDA yn y farchnad eiddo a chytunwyd y dylai'r Pwyllgor wneud rhagor o waith yn y maes hwn, gan gydnabod bod angen i strategaeth eiddo'r WDA fynd i'r afael â gwahanol anghenion yr is-economïau ar hyd a lled Cymru.

Sgiliau a chadw staff.

Dywedodd ELWa wrth yr Aelodau fod tystiolaeth fod dirywiad o ran sgiliau ac nad oedd fawr o alw am hyfforddiant a chyfleoedd i ddatblygu ymhlith oedolion y rhanbarth. O ganlyniad, ni ellid cynnig y sgiliau yr oedd eu hangen ar gyflogwyr ac roedd eu disgwyliadau'n gostwng. Wrth ystyried hyn law yn llaw â globaleiddio o ran cystadleuaeth o dramor roedd yn dangos nad costau llafur rhad oedd yr unig ystyriaeth gan fod gweithlu hyfedr ar gael yn India, Tsieina etc.

Roedd y ffaith nad oedd y rheini sy'n darparu hyfforddiant sgiliau yn asesu anghenion busnesau yn y dyfodol, na'n cynllunio i ddiwallu'r rhain, yn peri pryder i'r Aelodau. Yn hytrach, roeddynt yn darparu hyfforddiant fel ymateb i'r galw ymhlith gweithwyr. Roedd y gweithgynhyrchwyr yn ategu hyn gan ddweud bod angen datblygu system hyfforddi sy'n ymateb i'r galw. Roeddynt yn feirniadol o'r ddeialog a oedd yn bod rhwng ELWa a chwmnïau lleol. Dywedodd MWMG eu bod yn trefnu nifer o gyrsiau hyfforddi gyda chymorth ELWa ond roedd tystiolaeth i'r gwrthwyneb gan gynrychiolwyr y cwmnïau unigol a oedd yn y cyfarfod.

Byddai angen set o sgiliau amrywiol iawn ar grŵp bach o weithgynhyrchwyr yn rhywle fel y Drenewydd, a sylweddolwyd y byddai'n anodd iawn i ELWa a'r colegau lleol ddarparu o ystyried y niferoedd bach. Cyfeiriodd cynrychiolwyr o'r sector gweithgynhyrchu at y 'cynllun rhannu prentisiaid' a sefydlwyd ond a fethodd oherwydd diffyg cefnogaeth gan ELWa a'r WDA. Byddai'r cynllun wedi rhoi hyfforddiant i oddeutu 10 o brentisiaid a byddai wedi helpu i fynd i'r afael â'r broblem o hyfforddi nifer fechan o bobl mewn sgiliau arbenigol iawn.

Yn draddodiadol, mae cyrhaeddiad academaidd yn y rhanbarth yn uchel a gallai hyn fod yn ddylanwad negyddol. Gall llwyddiant yn yr arholiadau Safon Uwch fod yn basport i adael yr ardal ac roedd peth tystiolaeth bod angen gwell cydbwysedd rhwng addysg academaidd a galwedigaethol. Dywedodd y gweithgynhyrchwyr fod denu gweithwyr hyfedr i'r ardal yn her barhaus. Dywedodd Actia UK Ltd nad arian

oedd y broblem gan eu bod yn talu cyflogau uwch na'r cyflog cyfartalog i ddenu peirianwyr meddlawedd ond ar ôl ychydig flynyddoedd roeddynt yn symud ymlaen oherwydd nad oedd y seilwaith cymdeithasol yn ddigon cryf i ddenu pobl ifanc.

Uno'r CCNCau â'r Llywodraeth

Ni thrafododd y Pwyllgor yr uno'n benodol ond roedd yr Aelodau'n pryderu am yr effaith y byddai hynny'n ei gael ar wasanaethau datblygu'r economi yn y Canolbarth. Dywedodd y WDA bod posibilrwydd y gallai gael cryn effaith a galwodd am i'r ddarpariaeth ranbarthol barhau drwy'r swyddfeydd rhanbarthol. Roeddynt hefyd yn gobeithio y byddai'r uno'n rhoi mwy o sybsidaredd i'r ardal drwy'r amrywiaeth cynyddol o ddirprwyaethau. Roedd peth pryder ymhlith yr Aelodau fod y broses uno ynddi'i hun yn golygu bod y broses benderfynu'n arafu yn ystod y broses drosiannol.

Casgliadau

Roedd y Pwyllgor yn croesawu'r drafodaeth a gawsant â chynrychiolwyr o'r rhanbarth ac roeddynt yn cytuno bod nifer o feysydd allweddol a allai helpu i wella'r sefyllfa, yn enwedig o ran gweithgynhrychwyr y Canolbarth:

- **Strategaeth Eiddo.** Roedd yr Aelodau'n pryderu bod pennu targedau cynhwysfawr ar gyfer gwaredu asedau ledled Cymru yn golygu nad ydynt o reidrwydd yn sensitif i ardaloedd lleol. Roeddynt yn cytuno y dylai'r Pwyllgor ystyried Strategaeth Eiddo WDA yn fanylach, yn enwedig yr angen i ddefnyddio dulliau gwahanol mewn gwahanol rannau o Gymru.
- **Seilwaith Trafnidiaeth.** Roedd y Pwyllgor yn sylweddoli bod angen edrych yn fanylach ar strategaeth trafnidiaeth hirdymor ar gyfer y Canolbarth a thrafod ffyrdd o sicrhau cludiant cyflymach drwy'r rhanbarth gyfan â'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth.
- **Y Galw am Fand Eang.** Mae angen i asiantaethau yn y sector cyhoeddus a Llywodraeth Cynulliad Cymru wneud rhagor o waith yn y Canolbarth mewn perthynas â dadansoddi faint o alw sydd am Fand Eang a chael gwell dealltwriaeth o'r cymwysiadau a'r gwasanaethau a fyddai ar gael drwy ehangu cysylltedd.
- **Hyfforddiant Sgiliau.** Roedd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth wedi dweud wrth y Pwyllgor fod grŵp gorchwyl a gorffen gweithgynhyrchu yn defnyddio Sgiliau Dyfodol Cymru i edrych ar anghenion gweithwyr o ran sgiliau. Nid oedd hyn i'w weld yn digwydd ac mae'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i ystyried sut y gellid gwella'r cysylltiad â'r sector preifat o ran natur y ddarpariaeth sydd ei hangen.

Roedd y Pwyllgor yn ddiolchgar iawn i'r cynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus a phreifat a roddodd o'u hamser i drafod y materion hyn. Byddant yn cyflwyno'r adroddiad hwn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth a byddant yn ystyried ei ymateb maes o law.

Mai 2005

Atodiad A

Rhestr o'r rhai a oedd yn bresennol

Jeremy Wright - Pennaeth Gwasanaethau Datblygu'r Economi, Cyngor Sir Powys

Geraint Davies - Cyfarwyddwr Gweithredol, Awdurdod Datblygu Cymru

Mike Bacigalupo - Rheolwr Datblygu Busnes, Awdurdod Datblygu Cymru

Robin Beckmann - Cyfarwyddwr Rhanbarth, ELWa

Eamon Ford - Rheolwr Gyfarwyddwr, William O'Hanlan Ltd ac Aelod o Grŵp Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru

Michael Neave - Cyfarwyddwr Cyllid, Actia (UK) Ltd

Bob Millard - Cyfarwyddwr Gweithrediadau Makefast Ltd

Bob Brown - Cadeirydd Makefast, Ltd